**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd ac
Ymddiriedolaethau
Deon y Ddeoniaeth Feddygol
Deon yr Ysgol Nyrsio Deon yr
Ysgol Bydwreigiaeth

Medi 2018

Annwyl Gydweithiwr

**Labelu samplau gwaed cyn trallwysiad**

**MATER**

Mae'r Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) wedi ysgrifennu ataf i fynegi pryderon o fewn y gymuned trallwyso mewn ysbytai yng Nghymru ynghylch labelu samplau gwaed cyn trallwysiad. Yr wyf wedi cytuno i dynnu sylw at eu pryderon gyda chi ynghylch y mater difrifol hwn.

**CEFNDIR**

Cyhoeddodd Cymdeithas Haematoleg Prydain (Pwyllgor Safonau Prydeinig mewn Haematoleg gynt) *Guidelines for pre-transfusion compatibility procedures in blood transfusion laboratories* yn 2012. Un o'r argymhellion allweddol oedd:

> *'Oni bai bod systemau adnabod cleifion electronig diogel ar waith, dylid gofyn am ail sampl i gadarnhau grŵp ABO claf tro cyntaf cyn trallwysiad, lle nad yw hyn yn rhwystro'r broses o gyflenwi celloedd coch brys neu gyfansoddion eraill.'*

Y rhesymeg dros yr argymhelliad hwn yw:

> *'Mae diogelwch trallwysiad yn dechrau gyda chasglu'r sampl. Amcangyfrifwyd bod 1 mewn 2000 o samplau gan y claf anghywir, a elwir yn gyffredin fel 'gwaed anghywir yn y tiwb' [WBIT] (Dzik et al., 2003; Murphy et al., 2004). Mae data SHOT [cynllun cadw gwyliadwriaeth ar beryglon difrifol trallwysiad] yn cadarnhau bod hon yn parhau i fod yn broblem ddifrifol (SHOT).'*

Mae'n bosibl nodi WBIT os yw sampl cleifion cyfredol yn grŵp ABO neu RhD gwahanol i gofnod hanesyddol ar System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) ysbyty. Os nad oes cofnod hanesyddol nid yw hyn yn bosibl. Dyna pam yr argymhellir cymryd ail sampl i gadarnhau'r grŵp ABO gan 'glaf tro cyntaf' y gwneir cais am drallwysiad ar ei gyfer. **Rhaid cymryd y sampl cadarnhau ABO hwn ar fflebotomi ar wahân**

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon/ Tel: 029 2082 3911 Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Ebost: PSChiefMedicalOfficer@wales.gsi.gov.uk

**i'r sampl cyntaf**, gyda'r holl wiriadau adnabod claf cywir yn cael eu cynnal ar gyfer
**y ddau episod fflebotomi**.

**PRYDER**

Mae tystiolaeth o ymchwiliadau a gynhaliwyd pan fydd WBIT wedi digwydd yn nodi arfer o gymryd dau sampl cyn trallwysiad yn yr un epsiod fflebotomi, gydag un o'r samplau'n cael ei labelu ag amser gwahanol.

Rwy’n ymwybodol bod gan bob un o’r byrddau iechyd yng Nghymru sy’n darparu gwasanaethau labordy trallwyso bolisi ynghylch cadarnhau ABO a’r angen am sampl gwirio a gymerwyd ar episod fflebotomi ar wahân, cyn cyhoeddi cyfansoddion gwaed ABO a RhD wedi’u grwpio neu wedi’u traws-baru ar gyfer trallwysiad.

Mae'n ymddangos bod rhai o'r rhai sy'n cymryd samplau yn ceisio osgoi'r polisi hwn, gan danseilio'r diogelwch y bwriadodd hwn ei gyflwyno.

**CAM GWEITHREDU**

Ar ôl codi’r pryder hwn, hoffwn ofyn ichi ailadrodd pwysigrwydd dogfennaeth lawn, gywir a manwl gywir, o safbwynt diogelwch cleifion ac atebolrwydd proffesiynol.

Cadarnhewch eich bod wedi ceisio sicrwydd gan eich Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion fel y bo'n briodol.

Yn gywir



**DR FRANK ATHERTON**